# Nodyn Canllaw WRC
# Gwneud cais am ganiatâd i ymchwilio i ffynhonnell dŵr daear

**Deddf Adnoddau Dŵr 1991 Adran 32, Deddf yr Amgylchedd 1995, Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012**

## Cynnwys:

Cliciwch ar y dolenni i fynd i'r adran berthnasol o'r ddogfen hon.


Proses Ganiatâd Ymchwiliad Dŵr Daear
Sut mae cwblhau ffurflen WRC
Arolwg nodweddion dŵr


## Proses Ganiatâd Ymchwiliad Dŵr Daear

Mae dŵr daear yn adnodd naturiol hollbwysig. Mae dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i'w ddiogelu a'i reoli. Rydym yn rhoi trwyddedau i reoli tynnu dŵr o ffynonellau tanddaearol. Gall ymgeisio am drwydded tynnu dŵr fod yn broses hir a drud, felly mae'r gyfraith yn caniatáu ichi wneud gwaith ymchwilio heb drwydded tynnu dŵr lawn. Fel hyn gallwch ganfod pa ddŵr sydd ar gael ac a yw'n addas at eich anghenion. Ar gyfer yr ymchwiliadau hyn, rydym yn rhoi mathau o ganiatâd (o dan Adran 32 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991) sy'n pennu terfyn ar y tynnu dŵr ac sy'n cyfyngu ar y gwaith y gellir ei wneud i:

- ganfod a oes ffynhonnell dŵr daear
- gwirio swm y dŵr daear
- darganfod pa effaith y byddai tynnu dŵr daear yn ei chael ar ffynonellau dŵr cyfagos eraill.

Nid oes angen trwydded tynnu dŵr arnoch os byddwch yn tynnu llai nag 20 metr ciwbig o ddŵr y dydd. Ar gyfer tyniadau llai na'r terfyn hwn, nid oes angen caniatâd arnoch i ymchwilio i'r ffynhonnell dŵr daear. Os ydych am dynnu 20 metr ciwbig o ddŵr neu fwy y dydd, mae'n rhaid ichi gael caniatâd i ddrilio neu gloddio twll turio, ffynnon, dalbwll, neu lagŵn y mae dŵr yn diferu ohono, a chwblhau profion pwmpio. Mae'n drosedd i gyflawni'r gwaith uchod heb ganiatâd. Os byddwch yn eich cael yn euog o'r drosedd hon, gallech gael dirwy, wynebu cyfnod yn y carchar, neu'r ddau. Dylech gofio nad yw'r caniatâd yn gwarantu llwyddiant. Nid yw drilio twll turio, datblygu ffynnon, na chloddio dalbwll neu lagŵn y mae dŵr yn diferu ohono yn gwarantu y byddwch yn dod o hyd i ffynhonnell dŵr daear. Hefyd, os byddwch yn dod o hyd i ddŵr daear, efallai na fydd digon ar gyfer eich diben bwriadedig, neu efallai na fydd ansawdd y dŵr yn addas.

Hyd yn oed os bydd y ffynhonnell yn darparu digon o ddŵr, nid yw hyn yn golygu y byddwn yn rhoi trwydded tynnu dŵr ichi'n awtomatig. Er enghraifft, efallai bydd y prawf pwmpio yn dangos y bydd tynnu dŵr yn cael effeithiau annerbyniol ar ffynonellau dŵr lleol eraill neu ar nodweddion amgylcheddol. Hefyd, o achos prinder dŵr, mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau cyffredinol ar roi trwyddedau yn yr ardal. Os taw felly y mae, byddwn yn dweud wrthych cyn gynted â phosibl er mwyn arbed costau diangen ichi. Yn ogystal gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ffynonellau dŵr lleol drwy edrych ar Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr y Dalgylch ar gyfer eich ardal. Mae'r rhain ar gael gennym ni.

Pan fyddwn wedi cael ffurflen gais foddhaol, fel arfer byddwn yn cyflwyno caniatâd ichi gyflawni eich ymchwiliad. Fel arfer byddwn yn rhoi'r caniatâd ichi, yr ymgeisydd, am gyfnod o chwe mis. Bydd y caniatâd hwn yn cynnwys nifer o amodau sy'n nodi telerau'r caniatâd. Bydd pwy bynnag y byddwn yn rhoi'r caniatâd iddo/iddi yn gyfrifol yn gyfreithiol am gydymffurfio â'r amodau a bennir ynddo. Os na fyddwch yn cydymffurfio'n llawn â'r amodau,

gallwn dynnu'r caniatâd yn ôl. Hefyd gallwn dynnu'n ôl neu newid yr amodau os yw'r gwaith yn cael effeithiau nad oeddem wedi eu rhagweld, neu os yw'n rhesymol inni wneud hynny fel arall.

Bydd angen ichi gynnal profion pwmpio i weld a all y ffynhonnell gynhyrchu cyflenwad dŵr fydd yn diwallu eich anghenion ac i weld sut y bydd lefel y dŵr yn ymateb i gyfradd bwmpio benodol. Hefyd bydd y wybodaeth hon yn eich helpu i ddewis y dull tynnu dŵr gorau, megis pwmp o'r math cywir a'r dyfnder i'w osod. Bydd angen i ddatblygiadau mawr a datblygiadau sy'n agos i safleoedd sensitif yn amgylcheddol, gael eu profi dros gyfnod hirfaith i weld pa effaith gaiff tynnu dŵr ar ffynhonnau, tyllau turio, ffrydiau, a nentydd presennol, a nodweddion amgylcheddol eraill yn yr ardal. Hefyd bydd angen ichi lunio adroddiad ynghylch asesiad o effaith y dŵr daear. Byddwn yn dweud wrthych ba fesuriadau y bydd yn rhaid ichi eu cymryd yn ystod yr asesiad a beth sydd angen ichi ei gynnwys yn yr adroddiad. Hefyd efallai y bydd angen inni ymgynghori â sefydliadau eraill ynghylch eich cynigion. Yn ogystal bydd profi'r samplau dŵr yn ystod y profion pwmpio yn dangos inni a yw'r dŵr o ansawdd cemegol a bacteriolegol addas ar gyfer eich diben bwriadedig, neu a fydd angen ei drin. Rydych yn gyfrifol am sicrhau bod y dŵr a dynnir yn addas i'ch diben penodol.

Bydd y caniatâd yn nodi'r canlynol:
● Mesuriadau mwyaf y twll turio, ffynnon, dalbwll neu lagŵn y mae dŵr yn diferu ohono
● Adeiladwaith (megis casin a growt)
● Os yw'n briodol, yr angen am suddo tyllau turio i fonitro
● O le y dylid gollwng dŵr wrth gynnal profion pwmpio
● Amodau arbennig eraill, megis profi yn ystod yr haf yn unig
● Gofynion o ran atal llygredd o'r gwaith arfaethedig
● Gofynion o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ym mhob cam o'ch rhaglen waith
● Gofynion o ran cysylltu â sefydliadau perthnasol eraill, yn cynnwys Arolwg Daearegol Prydain (www.bgs.ac.uk), yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (www.hse.gov.uk) a'r Awdurdod Glo (www.coal.gov.uk), cyn dechrau drilio unrhyw ffynnon neu dwll turio
● Eich cyfrifoldeb dros bob agwedd ar y gwaith, gan gynnwys unrhyw ddifrod a allai gael ei achosi
● Eich cyfrifoldeb o ran cadw cofnodion clir a chywir, gan gynnwys mesuriadau tyllau turio a ffynhonnau, a darparu'r wybodaeth hon inni ac i Arolwg Daearegol Prydain
● Y mynediad sydd ei angen i'r safle fel y gallwn arolygu'r gwaith fel y bo'r angen

## Ansawdd y gwaith a chyflwyno canlyniadau

Mae'n rhaid ichi sicrhau bod y defnyddiau cywir yn cael eu defnyddio i ddrilio unrhyw dwll turio neu ffynnon, fel y cydnabyddir gan y diwydiant drilio ffynhonnau. Gallwch gael nodiadau canllaw ar gyfer creu tyllau turio i gyflenwi dŵr gan y 'Well Drillers' Association' (www.welldrillers.org.uk, rhif ffôn: 07885 979 583). Hefyd mae gwybodaeth dechnegol ar gael yn y cyhoeddiad 'Well Construction Specification for the Water Industry'. Gallwch gael copïau o'r ffurflen hon o WRc Plc (www.wrcplc.co.uk, rhif ffôn: 01793 865 000).

Ar ôl ichi gwblhau'r prawf pwmpio, bydd yn rhaid ichi anfon adroddiad atom sy'n rhoi manylion y pwmpio a'r effeithiau y cafodd ar lefelau dŵr. Byddwn yn dweud wrthych beth i'w gynnwys yn eich adroddiad. Byddwn yn disgwyl ichi gynnal profion pwmpio yn unol â Safon Brydeinig ISO 14686 (2003) 'Hydrometric determinations – Pumping tests for water wells – Considerations and guidelines for design, performance and use'. Gallwch gael copïau o'r ffurflen hon gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (www.bisgroup.com, rhif ffôn: 020 8996 9001). Ar ôl i'r prawf pwmpio gael ei gwblhau, bydd yn rhaid ichi anfon adroddiad inni ynghylch asesiad o effaith y dŵr daear. Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion canlyniadau'r prawf pwmpio ac asesiad o'r effaith y byddai'r tynnu dŵr arfaethedig yn ei chael ar yr amgylchedd lleol. Byddwn yn dweud wrthych beth i'w gynnwys yn eich adroddiad. Dylai

ymgynghorydd neu gynghorydd proffesiynol fod yn gallu gwneud hyn ichi. Byddwn yn gallu prosesu unrhyw gais am drwydded a wneir yn y dyfodol yn gynt os byddwch yn darparu adroddiad boddhaol inni ynghylch asesiad o effaith dŵr daear. Mewn rhai achosion, cyn rhoi caniatâd efallai byddwn yn gofyn ichi ddarparu adroddiad rhagarweiniol am bryderon penodol ynghylch effaith drilio neu brofi twll turio.

## Cael cyngor cyn adeiladu, datblygu neu ddrilio

Mae drilio twll turio neu ffynnon yn ddrud. Gall cynghorydd proffesiynol awgrymu lle sydd orau i ddatblygu ffynhonnell neu a oes gwerth o gwbl mewn gwneud hynny. Heblaw eich bod yn gwbl gymwys i gwblhau eich cynlluniau eich hun, rydym yn awgrymu eich bod yn cael cyngor proffesiynol. Gallwch gael enwau cyswllt oddi wrth y 'Geologists Directory' a'r 'Well Drillers Association'.

## Cyflenwadau dŵr preifat

Os ydych yn datblygu ffynhonnell dŵr daear i ddarparu cyflenwad dŵr yfed preifat (ac os nad ydych yn gwmni cyflenwi dŵr cyhoeddus) dylech ddweud wrth Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn eich cyngor lleol. Bydd y Rheoliadau Cyflenwi Dŵr Preifat yn berthnasol i'r tynnu dŵr a gyflawnir gennych, a dylai'r Swyddog Iechyd yr Amgylchedd allu rhoi cyngor ichi am hyn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (www.dwi.gov.uk, rhif ffôn: 030 0068 6400).

## Faint o amser sydd ei angen ar gyfer y broses ganiatâd?

Ar ôl inni gael eich ffurflen gais wedi'i chwblhau, a chan gymryd bod y manylion i gyd yn gywir, ein nod yw cyflwyno eich caniatâd ichi o fewn 45 diwrnod gwaith. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y cyfnod hwn yn hwy o lawer os bydd eich cynnig yn agos i safleoedd cadwraeth sensitif, oherwydd bydd yn rhaid inni gynnal ymgynghoriad cynhwysfawr. Bydd y broses gyfan, o gyflwyno eich ffurflen gais hyd at gwblhau eich prawf pwmpio a llunio eich adroddiad, yn cymryd sawl mis fel arfer, a gall gymryd hyd at flwyddyn.

## Ble i anfon eich ffurflen(ni) wedi'u cwblhau

Er mwyn cael gwell gwasanaeth, rydym yn eich annog i gyflwyno eich cais/ceisiadau yn electronig. Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau ac unrhyw wybodaeth ategol drwy'r e-bost at canolfanderbyntrwyddedau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
neu drwy'r post at:

Canolfan Derbyn Trwyddedau
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

## Ffioedd am geisiadau

Nid oes yn rhaid ichi dalu ffi er mwyn ymgeisio am ganiatâd i ymchwilio i ffynhonnell ddŵr daear. Mae ffi ar gyfer cais am drwydded tynnu dŵr a chaiff ei hysbysebu ar ein gwefan.

## Y camau nesaf

Ar ôl cwblhau'r broses ganiatâd ymchwiliad dŵr daear, os bydd eich datblygiad yn llwyddiannus ac os byddwch am barhau i dynnu mwy nag 20 metr ciwbig o ddŵr y dydd, bydd angen ichi ymgeisio am drwydded tynnu dŵr. Er na fydd y prawf pwmpio yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd fel arfer, efallai y bydd gan eich cynnig i dynnu dŵr effeithiau amgylcheddol y mae'n rhaid inni eu hystyried cyn y gallwn roi trwydded. Bydd yr adroddiad ynghylch asesiad o effaith dŵr daear, y byddwn yn gofyn amdano o bosibl er mwyn ategu unrhyw gais dilynol am drwydded tynnu dŵr, yn ein helpu i asesu hyn. Ein nod yw cyflwyno

trwyddedau tynnu dŵr o fewn pedwar mis ar ôl derbyn eich cais am drwydded, ond gall ceisiadau cymhleth gymryd mwy o amser na hyn.

## Cwestiynau a rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid Genedlaethol ar 0300 065 3000 (ddydd Llun tan ddydd Gwener, 8am tan 6pm).

**Deddf Diogelu Data 1998**

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei phrosesu gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'r Egwyddorion Diogelu Data i'n galluogi i brosesu eich cais, i fonitro cydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded/yr amodau cofrestru, i brosesu adnewyddiadau, ac i gynnal a chadw'r gofrestr gyhoeddus berthnasol.
Mae'n bosibl y byddwn yn prosesu a/neu'n datgelu'r wybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:

• Ymgynghori â thrydydd partïon sy'n berthnasol ac sy'n gyfrifol am ymateb i geisiadau ymgynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'n galluogi i brosesu eich cais
• Darparu *gwybodaeth sydd ar y gofrestr gyhoeddus ar gyfer ymholiadau
• Atal ac ymchwilio i achosion posibl o dorri cyfreithiau amgylcheddol a chymryd unrhyw gamau dilynol
• Ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, lle bo'r Ddeddf Diogelu Data yn caniatáu hynny
• Gwneud gwaith datblygu, ymchwil, a dadansoddi ystadegol ar faterion amgylcheddol

# Canllaw ynghylch cwblhau ffurflen gais WRC am ganiatâd i ymchwilio i ffynhonnell dŵr daear:

### Adran 1 - Math o ganiatâd
Ticiwch y blwch priodol i ddweud wrthym a ydych yn ymgeisio er mwyn ymchwilio i ffynhonnell dŵr daear newydd neu er mwyn ymestyn neu addasu'r gwaith presennol. Ar gyfer gwaith presennol, rhowch rif cyfresol y drwydded y mae'r cais hwn yn ymwneud â hi.

### Adran 2 – Manylion yr ymgeisydd
Fel y person sy'n cwblhau'r ffurflenni, rhowch eich manylion, ac, os ydynt yn wahanol, fanylion yr endid cyfreithiol a fydd yn dal y caniatâd a roddir. Bydd yr ohebiaeth yn digwydd gyda'r ymgeisydd oni bai eich bod yn nodi fel arall.

Pan fyddwn yn cyflwyno caniatâd, bydd yn nodi enw'r person neu'r cwmni rydym wedi rhoi caniatâd iddo (cyfeirir at hwn fel 'deiliad y caniatâd'). Bydd deiliad y caniatâd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r amodau a bennwyd ynddo. Chi, fel yr ymgeisydd, fydd deiliad y caniatâd fel arfer oni bai eich bod yn gofyn fel arall. Os oes gennych asiant neu rywun arall sydd wedi cytuno i fod yn ddeiliad y caniatâd, mae'n rhaid ichi ddarparu llythyr awdurdodi ychwanegol. Rhowch rifau ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost lle bo'n bosibl.

### Adran 3 - Trafodaethau blaenorol â Cyfoeth Naturiol Cymru
Os ydych wedi trafod eich cynnig â rhywun o Cyfoeth Naturiol Cymru o'r blaen, defnyddiwch yr adran hon i roi enwau neu gyfeirnodau.

### Adran 4 – Gwaith adfer
Mae'r rhaglen Adfer Tynnu Cynaliadwy wedi clustnodi tyniadau y mae angen rhoi terfyn arnynt neu eu haddasu er mwyn atal rhagor o ddifrod amgylcheddol. Os ydych yn gwneud y cais hwn o ganlyniad i ymchwiliadau a wnaed o dan y rhaglen hon neu raglenni adfer eraill, ticiwch y blwch 'Ydy' a rhowch fanylion.

### Adran 5 – Amlinell o'r Cynnig
Mae'n rhaid ichi ddarparu amlinell o'ch cynnig. Bydd faint o wybodaeth a roddir yn dibynnu ar gymhlethdod eich cynnig a sensitifrwydd y safle. Dylai'r wybodaeth a roddir fan hyn ein galluogi i ddeall yn glir eich cynnig, lleoliad y safle a'r ardal gyfagos. Gallai'r wybodaeth a roddir gynnwys (ond heb fod wedi'i chyfyngu i):

- Disgrifiad o'r gwaith y bwriedir ei osod, y prawf pwmpio, a'r drefn tynnu dŵr.
- Pam y mae'r lleoliad hwn wedi'i ddewis
- Disgrifiad o unrhyw fesurau a gynigir i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar yr amgylchedd dŵr
- Unrhyw ddata a fyddai o ddefnydd i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran asesu'r prif effeithiau y gallai'r cynnig eu cael ar yr amgylchedd dŵr
- Syniad o'r prif resymau dros y cynnig, gan gymryd i ystyriaeth effeithiau amgylcheddol posibl

### Adran 6 - Manylion yr ymchwiliad arfaethedig
Nodwch beth fydd y dulliau tynnu dŵr daear/manylwch ar y mathau o ffynonellau rydych yn bwriadu ymchwilio iddynt.

### Adran 7 - Manylion y safle
7.1 Rhowch fanylion yr holl leoliadau tynnu dŵr a gynigir.

Rhowch Gyfeirnod Grid Cenedlaethol 12 digid ac enw/cyfeirnod ar gyfer pob pwynt tynnu dŵr neu ymchwilio. Mae'n rhaid i'r Cyfeirnodau Grid Cenedlaethol gyfateb i'r mapiau a gyflwynwyd.

7.2 Nodwch os oedd gan y safle ddefnydd hanesyddol a allai fod wedi achosi halogi, ac os felly rhowch ragor o fanylion.

## Adran 8 - Manylion tynnu

Dywedwch wrthym faint o ddŵr rydych yn bwriadu ei dynnu yr eiliad, yr awr, y dydd, a'r flwyddyn. Rhowch y mwyafsymiau ac nid cyfartaleddau. Sicrhewch fod y symiau rydych yn eu nodi'n adlewyrchu eich anghenion yn fanwl gywir. Os byddwch yn ymgeisio am drwydded tynnu dŵr yn ddiweddarach, bydd yn rhaid ichi ddweud wrthym sut y bu ichi gyfrifo'r symiau y byddwch yn ymgeisio amdanynt. Pan fyddwch yn ymgeisio am drwydded tynnu dŵr, os byddwch yn gwneud cais am gyfradd dynnu uwch na'r hyn a brofwyd fel rhan o'r caniatâd ymchwiliad dŵr daear, mae'n debygol y bydd yn rhaid ichi fynd drwy'r broses ganiatâd dŵr daear unwaith yn rhagor, a fydd yn cymryd rhagor o amser ac yn costio rhagor o arian ichi.

Nodwch y diben, y cyfnod, a'r cyfeintiau rydych yn bwriadu eu tynnu ym mhob pwynt tynnu dŵr. Os yw'r dŵr i'w ddefnyddio at wahanol ddibenion, rhowch fanylion y symiau a dynnir ar gyfer pob defnydd gwahanol. Mae angen ichi roi'r gyfradd dynnu frig/union (mewn litrau yr eiliad) a'r symiau sydd eu hangen arnoch yr awr (metrau ciwbig yr awr), y dydd (metrau ciwbig y dydd) a'r flwyddyn (metrau ciwbig y flwyddyn) ar gyfer pob diben.

## Adran 9 - Manylion adeiladu arfaethedig

Cwblhewch y tabl i roi manylion adeiladu'r twll turio arfaethedig (neu waith arall a osodir).

## Adran 10 - Dull adeiladu (twll turio/ffynnon)

Mae mwy nag un ffordd o ddrilio twll turio neu ffynnon. Fel arfer mae'n rhaid i gwmnïau sy'n gwneud hyn ddefnyddio fflwsh drilio i wneud y broses ddrilio yn effeithiol ac i leihau'r risg o ddifrodi eu hoffer drilio. Mae angen manylion eich dulliau adeiladu arfaethedig arnom i ddeall y risgiau posibl i'r ardal leol. Hefyd dylech nodi sut y byddwch yn gwaredu'r cynnyrch gwastraff. Os ydych yn cael cwmni proffesiynol i ddrilio ffynnon neu dwll turio, dylai'r cwmni drilio roi'r wybodaeth hon ichi.

## Adran 11 - Datblygu ar ôl adeiladu (twll turio/ffynnon)

Mae gwahanol ddulliau y gall cwmnïau drilio eu defnyddio i helpu i wella'r symiau dŵr y gall twll turio neu ffynnon eu darparu. A fyddech cystal â rhoi manylion o ran unrhyw ddatblygu ar ôl adeiladu ac o ran sut y byddwch yn gwaredu'r cynnyrch gwastraff. Dylai'r cwmni drilio roi'r wybodaeth hon ichi.

## Adran 12 - Lleoliad gollwng (prawf pwmpio)

Os bydd angen ichi gynnal unrhyw brawf pwmpio, bydd yn rhaid ichi ollwng y dŵr sy'n cael ei bwmpio yn rhywle. Mae angen manylion arnom ynghylch ble rydych yn bwriadu gollwng y dŵr hwn. Os oes mwy nag un lleoliad yn cael ei gynnig, dylid nodi hynny.

## Adran 13 - Manylion gollwng (prawf pwmpio)

Mae angen inni ystyried y wybodaeth hon i sicrhau nad yw'r dŵr sy'n cael ei ollwng yn achosi bygythiad i eraill, neu i'r amgylchedd, yn sgil llifogydd neu dŵr o ansawdd gwaeth. Marciwch y pwyntiau gollwng yn glir ar y map rydych yn ei ddarparu gyda'ch cais, a labelwch nhw fel nad ydynt yn cael eu cymysgu â'r pwyntiau tynnu dŵr. Bydd angen ichi roi Cyfeirnod Grid Cenedlaethol 12 digid ar gyfer pob pwynt.

Os oes mwy na phedwar pwynt gollwng, rhowch fanylion y pwyntiau eraill ar ddalen o bapur ar wahân. Mae'n bosibl y bydd angen ichi gael Caniatâd Amgylcheddol i Ollwng Dŵr gennym cyn bod hawl gennych i ollwng dŵr o'r prawf pwmpio. Byddwn yn dweud wrthych os yw hyn yn angenrheidiol, ac os felly, beth y bydd angen ichi ei wneud. Mae'n gallu cymryd hyd at bedwar mis i wneud penderfyniad ar gais am y caniatâd hwn, felly dylech gysylltu â ni cyn gynhared â phosibl. Os oes gennych Esemptiad/Caniatâd Amgylcheddol i Ollwng Dŵr ar gyfer unrhyw un o'r pwyntiau hyn, rhowch y cyfeirnod.

## Adran 14 - Arolwg Nodweddion Dŵr

Mae'r Arolwg Nodweddion Dŵr yn rhan bwysig o'ch cais, a gallwn ond bwrw ymlaen â'ch cais os derbynnir arolwg boddhaol.

Mae'r nodiadau hyn yn egluro rhagor ynghylch yr Arolwg Nodweddion Dŵr a sut y mae'n rhaid ichi fonitro a mesur y nodweddion hynny pan fyddwch yn cynnal profion pwmpio.

Mae'n rhaid ichi ddarllen Safonau Prydeinig ISO 14686 (2003) 'Hydrometric determinations – Pumping tests for water wells – Considerations and guidelines for design, performance and use'. Dyma'r safon y mae'n rhaid ichi gydymffurfio â hi. Gallwch gael copi drwy:

Y wefan: www.bsigroup.com
E-bost: cservices@bsigroup.com

Rhif Ffôn: 0845 086 9001

## Yr Arolwg Nodweddion Dŵr

Cyn y gallwn roi caniatâd i fwrw ymlaen â'ch cais, mae'n rhaid ichi gynnal arolwg manwl a chywir o'r holl nodweddion dŵr yn yr ardal lle mae eich cynnig. Gall y 'nodweddion dŵr' olygu:

- tyllau turio a ffynhonnau, hyd yn oed os ydynt yn segur neu wedi'u mewnlenwi
- mynedfeydd (llwybrau ar gyfer draeniad i loddfa neu ohoni)
- ffrydiau
- diferu cyffredinol neu wlyptiroedd
- pyllau a llynnoedd, hyd yn oed os ydynt wedi'u mewnlenwi
- cyrsiau dŵr a
- lagynau y mae dŵr yn diferu ohonynt a dalbyllau

Gallwch gael gwybodaeth a allai helpu i glustnodi nodweddion dŵr o gatalogau ffynhonnau, cronfeydd data cwmni dŵr, a chofrestrau awdurdod lleol (a sefydlwyd o dan y Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat). Gallai rhai ffynonellau tynnu dŵr (boed â thrwydded neu beidio) fod yn segur (neu ymddangos fel pe baent yn segur).

Mae'r ardal y dylai eich arolwg ei chwmpasu yn dibynnu ar swm y dŵr rydych am ei dynnu. Dengys y tabl isod yr ardal leiaf y dylai eich arolwg ei chwmpasu.

| Swm dyddiol sydd angen ei dynnu arnoch: swm blynyddol / 365 (metrau ciwbig) | Radiws lleiaf ardal yr arolwg (metrau) |
|---|---|
| 20 – 100 | 250 |
| 100 – 500 | 500 |
| 500 -1,000 | 1,000 |
| 1,000 - 3,000 | 1,500 |
| 3,000 - 5,000 | 2,000 |
| Dros 5,000 | 4,000 |

Dylai canlyniadau'r arolwg gael eu cyflwyno yn Nhablau 14.1 ac 14.2 neu mewn adroddiad ychwanegol (dangoswch eich bod wedi gwneud hyn). Os oes angen rhagor o le arnoch, argraffwch gopïau ychwanegol o dablau 14.1 ac 14.2 a dangoswch eich bod wedi gwneud hyn.

Dangosir enghreifftiau o arolygon isod i roi syniad faint o wybodaeth a ddisgwylir.

Tabl Enghreifftiol 14.1

| Dalen arolygu rhif<br>1 o 1 | | Nodwedd dŵr (twll turio, ffynnon, pwll, ffrwd, mynedfa, lagŵn y mae dŵr yn diferu ohono, gwlyptir, llyn, cwrs dŵr, neu arall) | Defnydd<br>(e.e. amaethyddol, dŵr yfed, segur) | Cyflenwadau eraill ar gael (e.e. prif gyflenwad dŵr) | Diamedr<br>(milimedrau) | Dyfnder i'r gwaelod (metrau) | Dyfnder i'r lefel dŵr llonydd (metrau) | Dyfnder i'r lefel dŵr a gaiff ei bwmpio (metrau) | Enw, cyfeiriad, a rhif ffôn y deiliad a'r perchennog. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod safle 1 | Cyfeirnod Grid Cenedlaethol 12 digid:<br>*ST 24946 81528*<br>Pellter o'r ffynhonnell (metrau):<br>*50*<br>Rhif cyfresol y drwydded<br>*WA/090/0999/099* | *Twll turio* | *Domestig a magu moch* | *Nac oes* | *250* | *31* | *17.34* | *19.65* | *Perchennog:*<br>**Mr A Rall**<br>*Home Farm*<br>*Long Lane*<br>*St Mellons*<br>*02920 xxx xxx* |
| Cyfeirnod safle 2 | Cyfeirnod Grid Cenedlaethol 12 digid:<br>*ST 24952 81489*<br>Pellter o'r ffynhonnell (metrau):<br>*100*<br>Rhif cyfresol y drwydded<br>*Heb drwydded* | *Pwll* | *Pwll natur* | *Nac oes* | *amherthnasol gweler tabl 14.2* | - | - | - | *Perchennog:*<br>**Mr A Rall**<br>*Home Farm*<br>*Long Lane*<br>*St Mellons*<br>*02920 xxx xxx* |
| Cyfeirnod safle 3 | Cyfeirnod Grid Cenedlaethol 12 digid:<br>*ST 24922 81583*<br>Pellter o'r ffynhonnell (metrau):<br>125<br>Rhif cyfresol y drwydded<br>*Heb drwydded (>20 metr ciwbig y dydd)* | *Ffrwd â dalbwll* | *Domestig* | *Oes* | *amherthnasol gweler tabl 14.2* | - | - | - | *Perchennog:*<br>*Mrs Smith*<br>*Home House*<br>*Long Lane*<br>*St Mellons*<br>*02920 xxx xxx* |

| Cyfeirnod safle 1 | Cyfeirnod safle 2 | Cyfeirnod safle 3 |
|---|---|---|
| *Mae manylion adeiladu y twll turio yn ansicr, ond credir bod 5 metr gwaelod y twll turio yn rhychog. Mae'r braslun isod yn dangos pwynt datwm.*<br>  <br> | *Mae'n ymddangos nad oes mewnlif nac all-lif i'r pwll ac mae mewn cornel o'r cae sy'n llawn dŵr. Mae'r perchennog tir yn dweud nad yw'r pwll wedi'i leinio ac nad yw erioed wedi'i stocio â physgod. Fe'i defnyddir ar gyfer cadwraeth natur. Gweler y ffotograff isod:* | *Mae'r dalbwll wedi'i selio ar yr wyneb ac nid oedd modd arsylwi. Mae'r dŵr yn cael ei dynnu'n uniongyrchol o'r dalbwll. Dywed y sawl sy'n byw yno fod y ffrwd wedi darparu cyflenwad cyson o ddŵr glân ers prynu'r tŷ yn 1963.* |
| Mynediad: Agored ~~/ Wedi'i selio / Gwrthodwyd caniatâd~~ | Mynediad: Agored ~~/ Wedi'i selio / Gwrthodwyd caniatâd~~ | Mynediad: Agored ~~/ Wedi'i selio / Gwrthodwyd caniatâd~~ |

## Mynediad
Mae'n rhaid ichi gael caniatâd gan berchennog neu ddeiliad unrhyw dir cyn eich bod yn gwneud gwaith arolygu. Gallwn ddarparu llythyr i'ch helpu i ofyn am ganiatâd. Cysylltwch â ni drwy ffonio 0300 065 3000 i gael cymorth.

## Ansawdd yr arolwg
Mae'n rhaid ichi gynnal yr arolwg hyd at safon uchel. Os yw'r arolwg yn anghyflawn, yn anghywir, neu'n anfoddhaol fel arall, byddwn yn gofyn ichi ei ailwneud. Ni allwn fwrw ymlaen â'ch cais hyd nes ein bod yn gwbl fodlon ar yr arolwg.

## Effeithiau ar ddefnyddwyr presennol
Os dengys yr arolwg fod y gwaith yn debygol o gael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr dŵr eraill, ni fyddwn yn caniatáu ichi fwrw ymlaen ymhellach oni bai eich bod yn gallu dangos inni eich bod wedi dod i gytundeb boddhaol â'r defnyddwyr eraill hynny. Er enghraifft, gallai hynny gynnwys darparu cyflenwadau eraill.

## Monitro dilynol
Efallai y bydd unrhyw ganiatâd a roddir i brawf pwmpio o ganlyniad i'ch cais yn nodi bod yn rhaid ichi fonitro dŵr penodedig a nodweddion gwlyptir cyn, yn ystod, ac ar ôl y prawf pwmpio. Byddwn yn dweud wrthych ba fonitro sy'n angenrheidiol ar ôl inni gael cyfle i asesu eich cais a chanlyniadau eich arolwg.  Hefyd mae'n bosibl y bydd rhai safleoedd cadwraeth sydd heb fod yn yr ardal y mae'r arolwg yn ei chwmpasu ond sy'n ddigon agos fel bod angen monitro pan gynhelir profion pwmpio. Byddwn yn rhoi gwybod ichi os taw felly y mae. Efallai y bydd angen ichi suddo tyllau turio ychwanegol at ddibenion monitro.

## Cwblhau rhaglen y profion pwmpio

Cyn bod rhaglen y profion pwmpio yn dechrau, mae'n rhaid ein bod yn fodlon bod:

- Dyfeisiau mesur priodol ar waith
- Y mesuriadau'n mynd i gael eu gwneud a'u cofnodi'n gywir

Ar gyfer datblygiadau mawr neu sensitif mae'n bosibl y byddwn yn cael cyfarfod safle â chi neu eich staff a, lle bo'n briodol, gynrychiolwyr sefydliadau perthnasol eraill i sicrhau bod y prawf wedi'i osod yn iawn. Bydd y cyfarfod hwnnw'n cael ei gynnal tua phythefnos cyn i'r prawf pwmpio ddechrau.

## Adran 15 - Dogfennau ategol
Cwblhewch y rhestr wirio

## Adran 16 -  Cadarnhau'r datganiad â chyfreithiwr

Mae'n rhaid i'r adran hon gael ei llofnodi gan Ddeiliad y Caniatâd. Os oes gennych asiant neu rywun arall sydd wedi cytuno i fod yn ddeiliad y caniatâd, mae'n rhaid ichi ddarparu llythyr awdurdodi ychwanegol.

**Pwy all wneud cais am ganiatâd a llofnodi'r ffurflenni?**
Mae'n rhaid i bob unigolyn (neu ymddiriedolwr unigol) sy'n gwneud cais am i'w enw ymddangos ar y caniatâd gwblhau'r datganiad hwn.

| Math o Ddeiliad Caniatâd: | Llofnod pwy sydd ei angen: |
|---|---|
| Unigolyn / Unig fasnachwr | *Deiliad y Caniatâd |
| Cwmni cofrestredig | Cyfarwyddwr y cwmni neu ysgrifennydd y cwmni |
| Sefydliad o unigolion (ac eithrio partneriaethau, ymddiriedolaethau, ac elusennau) | Y cadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd, neu berson arall sydd ag awdurdod i gynrychioli'r sefydliad |

| | |
|---|---|
| Partneriaeth | Un neu ragor o'r partneriaid |
| Ymddiriedolaeth | Yr holl ymddiriedolwyr neu'r cadeirydd, y trysorydd neu'r ysgrifennydd |
| Elusen | Person ag awdurdod i lofnodi'r dogfennau ar ran yr elusen |
| Corff cyhoeddus (h.y. awdurdod lleol) | Person ag awdurdod i lofnodi ar ran y sefydliad |

* Os yw asiant i lofnodi ar ran Deiliad y Caniatâd, mae angen llythyr caniatâd gan Ddeiliad y Caniatâd.

Mae angen ichi roi'r manylion canlynol inni ar y ffurflen gais, yn dibynnu ar ba fath o ymgeisydd ydych chi.

| **Os yw'r ymgeisydd yn..** | **Mae'n rhaid iddo/iddi ddarparu:** |
|---|---|
| Unigolyn | ei enw llawn |
| Cwmni | cyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig a rhif cofrestru cwmni, yn unol â chofnodion Tŷ'r Cwmnïau |
| Sefydliad o unigolion (heblaw am bartneriaethau, ymddiriedolaethau, ysgrifennydd neu berson arall ac elusennau - gweler isod) | • enwau llawn a chyfeiriadau yr holl bartneriaid<br>• yr enw masnachu<br>• y cyfeiriad masnachu |
| Clwb neu elusen | • enwau llawn a chyfeiriadau yr holl ymddiriedolwyr<br>• enw a chyfeiriad y person ag awdurdod i dderbyn y drwydded ar ran y clwb neu'r elusen |